

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Pridd iach

Gwella cynhyrchiant a
gwynnwch fferm

Yn barod i lwyddo

Darllenwch am daith
DPP Kim Brickell



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
yghu Ddiwygio Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIFYN 39 – Mai/Mehefin 2022 | llyw.cymru/cyswlltffermio

Prosiect Pridd Cymru – sut y gall pridd iach wella cynhyrchiant a gwytnwch fferm



Ni fu mynd yn ôl at y pethau sylfaenol a deall ein priddoedd erioed yn bwysicach, gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050. Nod Prosiect Pridd Cymru ar draws Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio yw cael dealltwriaeth o'r stoc carbon presennol yn y pridd ar ffermydd yng Nghymru.

Mae gan storio a neilltuo carbon rôl allweddol i'w chwarae wrth gyrraedd y targed hwn. Gyda'r diddordeb cynyddol mewn priddoedd, a'r cynnydd yng nghostau mewnbynau, mae tîrffeddiannwyr yn sylweddoli gwerth gwella/cynnal iechyd pridd ar gyfer gwytnwch y fferm, ac yn ei gydnabod.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng pridd iach â strwythur da â gwell cynhyrchiant mewn cynydau. Gall dulliau cynyddu storio a neilltuo carbon mewn pridd (er enghraifft, cynyddu'r cynnwys organig mewn pridd, ac felly, y carbon organig mewn pridd) leihau'r nwyon tîr gwydr sydd yn yr atmosffer, ond gall hefyd gynnig manteision ychwanegol i dirffeddiannwyr, fel gwell ansawdd a ffrwythlondeb yn y pridd, llai o gywasgu, erydu a cholli maetholion.

Yng nghanol Chwefror, roedd staff Cyswllt Ffermio yn brysur yn casglu data a samplau pridd ar gyfer Prosiect Pridd Cymru o ffermydd ar draws y Rhwydwaith Arddangos sy'n cynnwys ffermydd sy'n amrywio o ran eu systemau ffermio, eu lleoliad, yr hinsawdd a'r math o bridd.

Bydd y data a gasglwyd yn helpu i archwilio sut y mae stoc carbon pridd yn amrywio

rhwng systemau ffermio, yn ogystal ag o fewn un fferm, gan ddibynnu ar y defnydd o dir a'r arferion rheoli a weithredir.

Ar ôl i'r holl ddata gael ei ddadansoddi, bydd y canfyddiadau'n cael eu crynhoi a'u cyhoeddi. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr am stoc carbon presennol y pridd a'i iechyd, yng nghyswllt gwahaniaethau yn y mathau o bridd a'u nodweddion, yn ogystal â defnydd a rheolaeth tir.

Os oes gennych ddiddordeb mewn amcangyfrif y stoc carbon pridd ar eich fferm, mae Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd yn cynnig cymorthfeydd pridd, lle bydd samplau pridd yn cael eu dadansoddi, gan roi archwiliad carbon pridd i chi. Gall pennu stoc carbon pridd eich fferm gynnig ffigyrau defnyddiol ar gyfer meincnodi gyda lefelau carbon y pridd yn y dyfodol, a gall fod o gymorth wrth wneud penderfyniadau rheoli ar y fferm.

Gallwch ddysgu mwy am glinigau un-i-un ar wefan Cyswllt Ffermio yma: llyw.cymru/cyswlltffermio

Casglu data Prosiect Pridd Cymru – beth a sut?

Cymerwyd samplau o'r categorïau rheoli caeau canlynol ar bob fferm:
Cae porfa barhaol (>7 mlynedd)
Cae silwair a/neu wair
Cae sydd wedi ei ail-hadu yn y saith mlynedd diwethaf
Cae pori'n unig
Arall – e.e. tir âr, mawnog, gwndwn llysieuol, stoc wedi eu cau allan
Cofnodwyd gwybodaeth fanwl am y math o bridd, ei nodweddion a'r hanes rheoli, gan gynnwys defnydd tir a maetholion a ychwanegwyd ar gyfer pob cae.

Ffigwr 1: Sut cafodd y samplau eu casglu

Rhannwyd y cae yn 3 pharth

1 1 ha

2

3


Cyfanswm nifer y caeau a samplwyd = 85

Sawl sampl pridd wedi'u cymryd ym mhob parth




Cyfanswm nifer y samplau = 710

Dyfnideroedd samplu:
0-10cm,
10-30cm,
30-50cm



Tyllau wedi'u cloddio ym mhob parth a samplau dwysedd swmp pridd wedi'u casglu



Cyfanswm nifer y samplau = 710

Data arall a gasglwyd:

- Uchder y borfa
- Cyfansoddiad y borfa
- Tymheredd y pridd
- Cyfesurynnau GPS ar gyfer y twll echdynnu samplau



Cyfanswm o 1,420 o samplau wedi'u hanfon i'w dadansoddi

Dadansoddiad o'r pridd yn y creiddiau:

- Cynnwys deunydd organig yn y pridd
- Cyfanswm carbon
- Cyfanswm nitrogen
- Cymhareb carbon: nitrogen

Bydd y ffigurau hyn yn caniatáu inni gyfrifo cynnwys carbon organig y pridd a chynnwys carbon anorganig y pridd.

Creiddiau dwysedd swmp pridd:

- Gwerth dwysedd swmp pridd (màs o bridd sych fesul uned cyfaint y pridd)
- Arwydd o gywasgu pridd
- Ffigurau'n cael eu defnyddio ynghyd â chanlyniadau carbon organig y pridd i amcangyfrif cyfanswm y stoc carbon (tunnell/ha)



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Y plotiau yn Llwyn y Brain sy'n cael eu defnyddio yn y prosiect i gymharu cynhyrchiant gwahanol lefelau o ronwellt mewn lleoliad ucheldirol

Gwobr glaswelltir i ffermwr ucheldir mewn cynllun treialu gwella glaswellt arloesol

Enillodd cynhyrchwr cig oen sy'n arloesi dulliau o wella parhad ac ansawdd gwndwn pori ar dir ymylol yn ucheldir Cymru wobwr rheoli glaswelltir newydd.

Enwyd John Yeomans, sy'n cymryd rhan mewn prosiect tair blynedd Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru yn treialu ffyrdd o wella gwndwn glaswellt yn yr ucheldir, yn Rheolwr Glaswelltir y Flwyddyn yn y Gwobrau Tir Âr a Glaswelltir Cenedlaethol cyntaf.



Cawell neilltuo ar gyfer mesur twf glaswellt

Roedd y wobwr yn cydnabod sgiliau rheoli glaswelltir rhagorol Mr Yeomans yn Llwyn y Brain, ger y Drenewydd, lle mae'n ffermio defaid a gwartheg gyda'i wraig, Sarah.

Mae'r prosiect EIP yn gwneud defnydd llawn o'r sgiliau hynny, trwy ymchwilio a ellir cyflawni mwy eto o'r porfeydd yn Llwyn y Brain. Mae'r prosiect yn monitro perfformiad rhonwellt ar gyfraddau uwch ar y tir uchaf – pridd gwlyb, mawn dwfn sy'n codi i uchder o 430 metr.

Daw'r prosiect i ben ym Mehefin 2022, ond mae'r canlyniadau hyd yn hyn wedi bod yn addawol, meddai Mr Yeomans. Roedd cynnyrch gwndwn a sefydlwyd yn 2019 ar gyfartaledd yn fwy na 12t DM/ha yn 2021, gan roi porthiant gwerthfawr i 58 mamog ag ŵyn i bob hectar am bron i dri mis, ac ymestyn y tyfiant yn hwyr yn y tymor yn sylweddol.

“Fe wnaeth gynyddu cynhyrchiant yn anferth o fis Mai hyd yn hwyr ym mis Mehefin,” meddai Mr Yeomans.

Dangosodd y prosiect bod rheoli glaswelltir yn dda, hyd yn oed mewn ardaloedd ymylol, yn gallu arwain at wndwn cynhyrchiol, gan gynhyrchu dros 12t DM/ha a chynnal cyfraddau stocio uwch. Yn 2021, cynyddodd y ganran o ronwellt mewn un o'r plotiau i 17% – i fyny o tua 10% yn 2020.

Dywed yr arbenigwr glaswelltir annibynnol Chris Duller, sydd wedi bod yn rhoi cyfraniad technegol at y prosiect EIP, fod cynnydd bychan tebyg mewn rhonwellt wedi ei weld hefyd mewn rhai o'r plotiau gwreiddiol eraill – y rhai oedd wedi wynebu amodau heriol wrth gael eu sefydlu oherwydd glaw eithriadol o drwm. Ond, nid oedd digon o ronwellt yn bresennol i gael effaith arwyddocaol ar berfformiad y gwndwn.

Yr heriau mwyaf wrth sefydlu'r gwndwn pori gwahanol ar Lwyn y Brain yw cyflwr y ddaear a pha mor agored yw'r safle ar yr ucheldir, sy'n cyfyngu ar y ffenestr bori.

“Yn aml, gallant effeithio ar arfer pori delfrydol, felly gall effeithio ar y defnydd – yn neilltuol yn gynnar ac yn hwyr yn y tymor,” meddai Mr Duller.

Rhygwellt sy'n parhau i fod y prif fath o laswellt yn y plotiau gwreiddiol, ond gyda glaswellt maes a maeswellt rhedegog yn cynyddu, yn arbennig yn yr ardaloedd gwlypach. Mae statws mwynau'r plotiau rhonwellt yn debyg iawn i'r plotiau rheoli, ac nid oes unrhyw wahaniaeth wedi ei gofnodi o ran statws elfennau hybrin.

Bydd cyfansoddiad terfynol y gwndwn yn cael ei asesu ym Mai/Mehefin 2022. Ond, wrth grynhoi'r prosiect hyd yn hyn, dywed Mr Duller mai un o'r canfyddiadau allweddol yw bod rhonwellt wedi tyfu cystal â rhygwellt

ym mhob un ond un o'r plotiau. Fodd bynnag, dim ond ymhellach ymlaen y gellir deall hirhoedledd rhonwellt (un o fanteision allweddol rhonwellt) mewn cymhariaeth â rhygwellt, ychwanega.

Mae amserlen dair blynedd y prosiect EIP yn rhywbeth y mae Mr Yeomans yn ddiolchgar amdano: “Mae'n rhaid i chi dreialu rhywbeth am o leiaf dair blynedd i wybod a fydd yn gweithio neu beidio, oherwydd mewn cyfnod byrrach, gall gogwydd fod yn y canlyniadau oherwydd blwyddyn eithriadol o dda, neu flwyddyn eithriadol o ddrwg.”

Roedd y wobr, meddai, yn un oedd yn adlewyrchu cyfraniad pawb fu'n ymwneud â'r fferm, ac yn wir y prosiect EIP.

“Mae llawer o bobl wedi helpu a chynghori a rhoi cyfleoedd i ni, o Gyfneddfa Rheoli Cyswllt Ffermio, a roddodd gyfle i mi edrych ar sut y mae ffermwyr yn tyfu a rheoli rhonwellt yn y Ffindir, i'r cyfarfodydd a'r trafodaethau yr wyf wedi eu cael gydag eraill.

“Rydym hefyd yn ddiolchgar i Nick Rider o OPICO, a wnaeth ein henwebu ar gyfer y wobr. Roedd peiriant hau 'air seeder' OPICO yn un o'r dulliau o drin y tir yn y prosiect.”

Mae'r canlyniadau a gasglwyd hyd yn hyn o'r prosiect EIP wedi cael eu dadansoddi, ac yn y flwyddyn derfynol, bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu defnyddio i dyfu'r gwndwn sy'n cyflawni orau o ran amodau'r fferm a'r system ffermio.

I gael mwy o wybodaeth am y prosiect EIP hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR, neu ewch i'r dudalen EIP yng Nghymru ar wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermio



Safle Ffocws: Gardd Fasnachol Glebelands, Aberteifi

Swyddog Technegol: Dr Delana Davies

Teitl y Prosiect: Gwerthuso manteision hof olwyn Terrateck â Bio-Ddisgiau i reoli chwyn mewn llysiau



Adam York yn defnyddio'r hof olwyn Terrateck â Bio-Ddisgiau

Menter organig 4ha yw Gardd Fasnachol Glebelands, sy'n cyflenwi siop fferm ar y safle, a bwytai a siopau lleol. Tyfir yr holl gynnyrch yn ôl safon organig Cymdeithas y Pridd, gan ddefnyddio technegau sydd wedi hen sefydlu fel compostio ar y safle, cylchdroi cnydau a chnydau tail gwyrdd i gynnal ffrwythlondeb y pridd ac iechyd planhigion.

Mae rheoli chwyn yn her barhaus mewn mentrau tyfu llysiau bach a chanolig, sy'n dibynnu fel arfer ar dechnegau chwynnu â llaw sy'n gofyn am lawer iawn o amser a llafur. Ar hyn o bryd, mae'r busnes yn defnyddio dwy fodel hof olwyn Glaser, a ddefnyddir ochr yn ochr â chwynnu â llaw, ond roeddent am archwilio sut i leihau neu gael gwared ar yr angen i chwynnu â llaw yn gyfan gwbl.

Mae'r offeryn 'Terrateck Market Gardening Hoe' yn un amlbwrpas y gellir ei ddefnyddio i baratoi gwely hadau, trin y tir, chwynnu a chreu rhychau. Gosodwyd Bio-Ddisgiau ar yr offer sydd â dau osodiad: un ar gyfer gorchuddio rhes o lysiau, a'r llall ar gyfer chwynnu manwl. Wrth ddefnyddio'r gosodiad

trin rhychau, mae'r Bio-Ddisgiau'n gorchuddio'r rhes â phridd, a thrwy hynny'n mygu'r planhigion chwyn – gan ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer planhigion ifanc ffa, nionod, a chennin.

Beth a wnaed

Dewiswyd cennin wedi eu trawsblannu fel y cnwd treialu, a labelwyd gwelyau tair rhes bob yn ail oedd yn 200 troedfedd (61m) o hyd, gyda dwy driniaeth yn cael eu defnyddio gan ddefnyddio pum gwely i bob triniaeth:

1. Y dull arferol o chwynnu rhwng rhesi gyda hof yna chwynnu gydag olwyn rhwng rhesi, yn defnyddio hof Glaser (GH) wedi ei gosod gyda llafn hof, ac yna bachau trin
2. Mynd dros y tir un waith gyda'r Hof Terrateck â Bio-Ddisgiau (TBD)

Canlyniadau

Gwnaed y gwaith chwynnu a chasglu'r data ar 8, 15 a 30 Mehefin 2021. Roedd yn sych a heulog trwy gydol y cyfnod hwn, gyda'r glaw sylweddol olaf ar 23 Mai.

Roedd y sychder yn ddelfrydol i ladd chwyn bach, ond yn llai ffafriol i'r cnwd dyfu'n gyson. Nid oedd y trin a gyflawnwyd ar yr ardal dreialu yn ddelfrydol, gyda phridd lympiog dros lawer o'r gwelyau, oherwydd bod y tywydd ychydig yn wlyb wrth ei aredig, ac yna bod sychder wedi dilyn. Gan fod y Bio-Ddisg yn dibynnu ar bridd mân i'r pridd gael ei wthio'n rhwydd at y cnwd, roedd gwaith y gweithredwr yn anodd. Wrth ei ddefnyddio wedyn ar blanhigion betys wedi eu trawsblannu, gyda phridd llawer mannach, roedd y Bio-Ddisg yn haws a chyflymach i'w ddefnyddio.

Defnyddiwyd y Bio-Ddisgiau i symud pridd at waelod y cennin wrth eu trin y tro cyntaf. Roedd yr ail driniaeth yn gofyn am chwynnu ychwanegol â llaw i gael gwared ar chwyn

oedd yn rhy fawr i'w claddu, ac fe wnaeth y trydydd ddefnyddio'r Bio-Ddisg yn unig. Ni welwyd gwahaniaethau amlwg yn nwyster y chwyn a'u rhywogaeth na chynnyrch y cnwd

a'r gyfradd dyfu rhwng y ddwy driniaeth. Ond, roedd yr amser a ddefnyddiwyd yn gweithio yn amlwg yn wahanol rhwng y ddwy driniaeth (Tabl 1).

Tabl 1: Amser chwynnu a chostau llafur ar gyfer pum gwely trin yn defnyddio'r hof olwyn Terrateck gyda Bio-Ddisgiau (TBD) mewn cymhariaeth â'r hof Glaser (GH) a hofio â llaw.

Dyddiad	TBD			GH		
	8 Meh	15 Meh	30 Meh	8 Meh	15 Meh	30 Meh
Amser chwynnu i bob gwely (munudau)	11.8	75.0	11.4	78.0	45.0	63.0
Cyfanswm trin amser chwynnu (oriau)		8.2			15.5	
Costau llafur i 5 gwely £*		82			155	
Arbediad cost %		47% yn llai				

*Cost o £10 yr awr wedi ei roi i'r llafur

Yn dilyn y cyfnod treialu a dychweliad y glaw, roedd angen trin yr holl resi â hof olwyn Glaser. Roedd hadau chwyn cwsg yng nghanol y cennin aeddfed yn golygu na ellid defnyddio'r offeryn Bio-Ddisg, oherwydd uchder y cnwd ar y cyfnod hwn. Byddai bod â'r gallu i ddyfrio'n ddigonol gyda math gwn glaw wedi gorfodi mwy o chwyn i ymddangos yn ddigon cynnar er mwyn gallu eu dinistrio yn ystod y tair triniaeth dreialu (mae hyn yn wir oherwydd nad yw'n fwy o ymdrech i ladd rhagor o chwyn mân).

Casgliadau

Mae hwn yn offeryn gwerthfawr i drin cynydau sydd ar eu traed. Mae pridd digon mân yn allweddol iddo weithio'n effeithlon ac i gael canlyniadau dibynadwy. Mae'r hof yn addas iawn i weithredwyr bach a chanolig gyda rhesi o gnydau o werth uwch, ond nad yw ar raddfa ddigon mawr i gyfiawnhau costau peiriannau,

eu gosod nac amser hyfforddi ar gyfer fersiynau ar dractorau. Un cyfyng gyngor nodweddiadol ar ffermydd bach i ganolig yw a ddylid cael y tractor allan i osod yr offer trin perthnasol, neu ddewis offeryn llaw llai technolegol i'w ddefnyddio ar unwaith (ond yn llai effeithlon) wrth i'r ardal sy'n cael ei thrin gynyddu. Mae'r arbediadau amser a gofnodwyd yn awgrymu bod y Bio-Ddisgiau yn offeryn cost effeithiol. Dros bum gwely trin a thair ymgyrch chwynnu, arbedodd y Bio-Ddisgiau 7.3 awr o lafur ar gost o £73, mewn cymhariaeth â hof Glaser a chwynnu â llaw, sy'n ostyngiad o 47%. Os defnyddir yr hof ar gnydau eraill, yna gellid adfer cost prynu'r Bio-Ddisgiau (<£200 ar brisiau 2021, yr hof olwyn ddim yn gynwysedig) yn gyflym iawn.

I gael rhagor o wybodaeth ar y prosiect Safle Ffocws hwn, ewch i: [llyw.cymru/cyswlltfermioeinfermydd](#)


Arallgyfeirio twf er budd amgylcheddol ac economaidd

Wrth i ffermwyr chwilio am fentrau gwahanol a allai helpu'r ffrydiau incwm, mae Dr David Cutress o Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth, wedi edrych ar rai cnydau gwahanol posibl. Fel mae'n esbonio, mae gan rai o'r rhain hefyd fanteision posibl o ran lleihau ôl troed carbon ffermydd a lledaenu'r risg sy'n gysylltiedig â thywydd na ellir ei rhagweld.

Mae systemau porfa cynhyrchion iawn a dewisiadau o rywogaethau cnydau dan bwysau oherwydd digwyddiadau tywydd

cynyddol eithafol na ellir eu rhagweld, gan arwain at ansefydlogrwydd yn y cynnyrch blyneddol a'r angen cynyddol am strategaethau i leihau effeithiau amgylcheddol. Cysylltir newid hinsawdd â'r cynnydd hwn yn amllder tywydd eithafol, ac mae angen ystyried dewisiadau tymor hir i sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd ffermio yn y pen draw. Mae arallgyfeirio menter fferm yn un ffordd o ledaenu'r risg economaidd. Mae'n werth ystyried, wrth ddatblygu cynllun arallgyfeirio, pa ddewisiadau sydd ar gael, a pha rai all gael effeithiau buddiol ar yr amgylchedd, ochr yn ochr â rhai economaidd.

Trwy arallgyfeirio i laswelltir llawn rhywogaethau, gellir sicrhau y bydd rhywogaethau yn y boblogaeth yn gallu addasu i hinsawdd unrhyw flwyddyn benodol (trwy amrywiaeth yn y gallu i wrthsefyll sychder neu lifogydd, er enghraifft). Mae hyn yn gweithredu i glustogi'r colledion mewn



Ffigwr 2: Cnydau a phorfa amgen


cynnyrch, sydd yn llawer mwy cyffredin mewn porfeydd un math neu gymysgedd llai amrywiol ar wndwn. Yn ychwanegol, mae glaswelltir llawn rhywogaethau wedi ei ddylunio'n dda yn rhoi hwb i fioamrywiaeth yr ecosystem, gall ymgorffori nifer o rywogaethau sy'n sefydlogi nitrogen (N), lleihau effeithiau amgylcheddol ymhellach trwy leihau'r gwrtaith N angenrheidiol a gwella iechyd y pridd a'r potensial i storio carbon.

Mae soia, sy'n gyffredin mewn dognau i anifeiliaid, yn ddadleuol oherwydd yr allyriadau trwm sy'n gysylltiedig â chlirio tir a chludiant (llawer yn digwydd yn fforestydd glaw De America). Fel dull posibl o ddatrys y broblem fyd-eang hon, mae bridwyr yn dal i gynhyrchu rhywogaethau soia sy'n gallu tyfu mewn hinsawdd oerach fel un y Deyrnas Unedig. Byddai tyfu cynnyrch llawn protein o'r fath yn lleol yn agor y drws ar refeiwr defnydd gan bobl ac anifeiliaid, gan leihau ystyriaethau

mewnforio dadleuol. Yn ychwanegol, mae soia yn godlysol, gan helpu i sefydlogi N mewn priddoedd – ac felly angen llai o fewnbynnau N.

Efallai bod adnoddau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ddigonol ar gael i dyfwrwr eu defnyddio. Ymhlith y rhai y gellid eu defnyddio mae suropau gourmet o rywogaethau coed cynhenid sy'n storio carbon, fel bedw. Yn yr un modd, gallai cynaeafu cennin Pedr gynhyrchu refeiwr pwysig oherwydd eu rôl yn creu glanthamin a ddefnyddir mewn triniaethau ar gyfer clefyd Alzheimer; a gall crydau a ddyluniwyd ar gyfer echdynnu deunyddiau fferyllol eraill (fel teulu'r gowrd a serennyn) gynnig ffrydiau refeiwr diddorol; mae hyn ar yr amod bod y galw yn y farchnad yn cael ei asesu yn gyntaf.

Am ragor o wybodaeth (gan gynnwys dynodi prosiectau yng Nghymru sydd eisoes yn edrych ar ddewisiadau o'r fath), darllenwch yr erthygl 'Datgloi potensial cnydau amgen' ar wefan Cyswllt Ffermio: lyw.cymru/cyswlltffermio





Cath Tudor, o Filfeddygon ProStock, un o'r practisiau sy'n cyflwyno'r gweithdai

Angen gwella perfformiad ŵyn ar ôl diddyfnu? Yn bryderus nad yw eich buchod magu mor gynhyrchiol ag yr oeddech yn gobeithio?

Ychwanegodd Cyswllt Ffermio ddau fodiwl ychwanegol at ei ddarpariaeth gweithdai hyfforddi lechyd a Lles Anifeiliaid sydd wedi eu hariannu'n llawn.

Bydd y modiwlau mwyaf newydd – 'Gwella perfformiad ŵyn ar ôl diddyfnu' a 'Gwneud y mwyaf o gynhyrchiant buchod magu' – yn cael eu cyflwyno o ddechrau Ebrill, gan ddod â chyfanswm y pynciau sydd ar gael ar hyn o bryd yn 16.

Cynhyrchir holl gynnwys cyrsiau lechyd a Lles Anifeiliaid Cyswllt Ffermio ar y cyd â NADIS (y Gwasanaeth Gwybodaeth Afiechydon Anifeiliaid Cenedlaethol) ac fe'u cyflwynir gan

bractisiau milfeddygol ledled Cymru. Bydd y gweithdai rhyngweithiol ar gael naill ai mewn gweithdai grŵp rhanbarthol wyneb yn wyneb (sy'n para hyd at dair awr) neu ar-lein.

Esbonia Cath Tudor, partner gyda'r practis milfeddygol arbenigol anifeiliaid fferm ProStock, sydd â changhennau ledled De Orllewin Cymru, mai nod y modiwlau defaid a buchod magu diweddaraf yw gwella a chynnal perfformiad a chynhyrchiant anifeiliaid. Dywedodd Ms Tudor y bydd pwyslais cryf ar ymwybyddiaeth o afiechydon a'u hatal, yn ogystal â phwysigrwydd cadw cofnodion, i asesu perfformiad a chynorthwyo cynhyrchiant a phenderfyniadau rheoli.



Gwella perfformiad ŵyn

Prif bwyslais y modiwl 'Gwella perfformiad ŵyn ar ôl diddyfnu' fydd ar reoli diddyfnu, dynodi a rheoli afiechydon heintus, rheoli parasitiaid a maethiad. Ond, bydd cynllunio iechyd, bioddiogelwch a defnydd cyfrifol o wrthfotigau ac anthelmintigau hefyd yn rhan ganolog o bob gweithdy.

"Mae arnom angen i bob ffermwr ddeall egwyddorion sylfaenol economeg magu ŵyn i naill ai eu pesgi neu fagu oddi wrthynt, a phwysigrwydd pwyso ŵyn a rhoi sgôr cyflwr corff i'r mamogiaid i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau am ddiddynfnu.

"Bydd yr hyfforddiant yn trafod yr holl ffactorau allweddol a ddylai ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau a wnaed am reoli diddyfnu, er bod angen i'r rhain amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ôl cyflwr corff y famog, faint o borthiant sydd ar gael a chyfraddau tyfu'r ŵyn, a bydd hefyd yn help iddynt osod targedau realistig," dywedodd Ms Tudor.

Gwella perfformiad gwartheg magu

Bydd y gweithdy 'Gwneud y gorau o gynhyrchiant gwartheg magu' yn ymdrin â phob agwedd ar reoli sy'n effeithio ar gynhyrchiant buchod magu a'u proffidoldeb, gan roi pwyslais neilltuol ar faethiad, ffrwythlondeb, rheoli parasitiaid ac afiechydon heintus. Bydd y gweithdy hefyd

yn ymdrin â phwysigrwydd cynllunio iechyd, bioddiogelwch, defnydd cyfrifol o wrthfotigau ac anthelmintigau ac effaith amgylcheddol.

Dywedodd Ms Tudor y byddai'r gweithdy hwn yn sicrhau bod ffermwyr yn deall economeg sylfaenol cynhyrchu buchod magu a gallu dynodi meysydd lle gall cynhyrchiant gael ei wella.

"Byddant yn dysgu sut i ddiffinio buwch fagu gynhyrchiol, a thrafod y ffordd orau i gyflawni neu wella perfformiad a chynhyrchiant.

"Y nod yw cael buwch sy'n cyfebu'n rhwydd, yn lloea'n rhwydd, yn magu llo iach ac yna'n cyfebu eto, gan gadw'n iach a heb afiechyd."

Bydd y rhai fydd yn bresennol yn deall effaith maethiad ar ffrwythlondeb, gan gynnwys mwynau ac elfennau hybrin, a gwerthfawrogi manteision rhoi sgôr cyflwr corff wrth reoli maethiad buchod magu.

Er mwyn cael gwybod pa filfeddygon fydd yn darparu'r modiwlau hyfforddi iechyd a lles anifeiliaid hyn ac i weld y lleoliadau a'r dyddiadau, sganiwch neu cliciwch ar y Cod QR isod, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant, neu cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol.





Kim Brickell, Rheolwr Folly Farm (ar y dde), gyda Rebecca Summons, Rheolwr Iechyd a Lles Anifeiliaid (Hyfforddiant) Cyswllt Ffermio

Rheolwraig Folly Farm, Kim Brickell, yn troi at Cyswllt Ffermio bob amser pan fydd arni eisiau dysgu sgîl newydd!

Yn gynharach eleni, dyfarnwyd tlws Iechyd a Lles Anifeiliaid Cyswllt Ffermio i Kim Brickell o Sir Benfro yn seremoni wobrwyo flynyddol Lantra Cymru. Roedd y wobwr i gydnabod ei hymrwymiad eithriadol i ddatblygiad proffesiynol parhaus a defnyddio ei gwybodaeth a'i sgiliau newydd yn effeithiol yn yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel 'swydd ei breuddwydion'. Mae Kim yn rheolwr fferm ar un o gyrchfannau teuluol mwyaf poblogaidd Cymru, Folly Farm, ger Dinbych y Pysgod, sy'n denu mwy na 500,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Dywed Kim fod cyrsiau e-ddysgu wedi eu hariannu'n llawn Cyswllt Ffermio wedi ei galluogi i 'gael y wybodaeth ddiweddaraf yn fy amser fy hun ac ar fy nghyflymder fy hun', sydd nid yn unig wedi cynyddu ei sgiliau, ond hefyd wedi ei galluogi i rannu'r wybodaeth honno ag aelodau eraill o dîm Folly Farm sy'n ei dilyn.

"Mae'r amrywiaeth o wasanaethau cefnogi sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio, gan gynnwys gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid,

diwrnodau agored a'r amrywiaeth eang o bynciau cysylltiedig â ffermio yr wyf wedi eu hastudio trwy e-ddysgu wedi rhoi sgiliau a gwybodaeth newydd i mi yr wyf yn eu defnyddio bob dydd."

Mae sw safon byd Folly Farm yn gartref i fwy na 100 o rywogaethau o anifeiliaid eggsotig, adar a llawer o greaduriaid eraill, ond ochr yn ochr â hynny, mae yno stoc mwy 'arferol' a busnes fferm i'w reoli. Gan weithio ochr yn ochr â chyd-reolwr a chwech o staff cefnogi, rôl Kim yw gofalu am Iechyd, Lles a hwsmonaeth gyffredinol diadelloedd y fferm o ddefaid prin a geifr, a bridiau arbenigol o foch a dofednod, yn ogystal â nifer fawr o anifeiliaid anwes bach. Mae hefyd yn cymryd rhan yn strategaethau pridd a glaswelltir y fferm.

Er mwyn clywed Kim yn sôn am fanteision e-ddysgu a'r ffordd y mae wedi bod yn defnyddio Storfa Sgiliau i gynllunio ei thaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermio

Taith Datblygiad Proffesiynol Parhaus Kim:

Modiwlau e-ddysgu a gwblhawyd	
Erthylylu mewn mamogiaid	Gwella iechyd y pridd
Twymyn y moch Affrica	Pigo niweidiol mewn ieir dodwy
Gwrthedd anthelmintig ar ffermydd defaid	Ŵyn – docio, maethu ac ysbaddu
Gwrthedd gwrthfotig (AMR)	Rheoli llyngyr yr iau mewn defaid
Bioddiogelwch a chwariantîn	Heintiadau nematod mewn defaid – gastro-enteritis parasitaidd (PGE)
Bioddiogelwch i dyddynwyr moch	Brechu dofednod
TB Gwartheg	Afiechyd resbiradol mewn dofednod
Gwerthoedd bridio tybiedig	Y clafr
Maethiad y famog	Elfennau hybrin mewn defaid
Afiechydon y llygad ar ddefaid	Adnabod coed
Rhywogaethau glaswelltir	Llyngyr mewn moch
Iechyd a diogelwch	

Gweithdai/gweminarau Iechyd a Lles Anifeiliaid
Cynllunio iechyd anifeiliaid
Gwrthedd gwrthfotig
Colledion ŵyn (Rhan 1, 2 a 3)
Cloffni defaid
Rheoli parasitiaid defaid

Digwyddiadau safleoedd arddangos
Cynnal iechyd y famog cyn ŵyna
Rheoli llyngyr yr iau yn gynaliadwy mewn defaid a gwartheg

Safle Ffocws: Ffosiysgravel, Borth
(Martin Griffiths a'r teulu)

Swyddog Technegol: Gwenan Evans

Teitl y Prosiect: Potensial mesur porfa gyda lloeren ar gyfer rheoli pori

Cyfnod y Prosiect: Chwefror – Tachwedd 2021

Mae delweddau lloeren yn cynnig offeryn posibl i fesur glaswellt i gynorthwyo ffermwyr wrth lunio penderfyniadau am ddyrannu a defnyddio glaswellt.

Mae mesur glaswellt gyda dyfeisiadau llaw a cherdded y caeau yn cymryd llawer iawn o amser, ac yn un o'r prif rwystrau i ffermwyr sydd am gasglu data am dyfiant glaswellt. Mae'r dechnoleg hon yn cynnig y dewis o gasglu data heb fod angen cyffwrdd y caeau. Mae pob tunnell ychwanegol o gynnwys sych a ddefnyddir ar bob hectar werth £334 y flwyddyn i ffermydd llaeth (AFBI), gan amlygu manteision cael mynediad at y data hwn i fod yn sail i benderfyniadau rheoli.


Ar fferm Ffosiysgravel yng ngogledd Ceredigion, mae cyfran sylweddol o'r

llwyfan pori ar dir llechweddol sy'n draenio'n rhwydd. Treialwyd effeithiolrwydd delweddau lloeren wrth ragweld y gorchudd glaswellt (Gorchudd Cyfartalog y Fferm) oedd ar gael mewn padogau trwy'r tymor gan ddefnyddio'r offeryn Ruumi, ac fe'i cymharwyd â darlenniadau mesurydd plât.

Yn gyffredinol, rhoddodd y mesuriadau delweddau lloeren gynrychiolaeth dda o Orchudd Cyfartalog y Fferm, gyda'r gwahaniaeth ar gyfartaledd yn 82kg DM/ha (Ffigwr 3). Ond, dangosodd gorchudd y caeau unigol fwy o amrywiad rhwng ffigurau'r ddau ddull, oedd yn effeithio ar benderfyniadau rheoli pori. Mae angen rhagor o ymchwil i edrych ar effeithiau llechweddi ar ddarlenniadau lloeren, a all gael mwy o effaith ar y cywirdeb.

Meddai Martin Griffiths, "Mae bod yn rhan o'r prosiect Cyswllt Ffermio hwn wedi dwyn llawer o fanteision, wedi amlygu heriau a phwysleisio'r cyfleoedd ar gyfer y math hwn o dechnoleg."

I gael mwy o wybodaeth ac i weld yr adroddiad terfynol ar gyfer y Safle Ffocws hwn, ewch i: llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd



Ffigwr 3: Cymharu mesuriadau gorchudd fferm cyfartalog o feddalwedd lloeren a darlenniadau mesurydd plât rhwng 18 Mawrth a 2 Hydref 2021

— GFfC wedi'i fesur gyda lloeren (kg DM/ha)
— GFfC wedi'i fesur gyda mesurydd plât (kg DM/ha)

TEITHIO WEDI'I ARIANNU

TAITH ASTUDIO

Ymgeisiwch heddiw am hyd at £3,000 i ariannu Taith Astudio

- Gall grwpiau o ffermwyr a choedwigwyr cymwys dderbyn hyd at £3,000 y grŵp i ariannu 50% o'r costau
- Treuliwch gyfnod o hyd at 4 diwrnod yn teithio ac archwilio diwydiant amaethyddol y DU



Mae Taith Astudio yn gyfle perffaith i ddarganfod dulliau gwell o weithio, gweld arfer gorau ar waith a datblygu syniadau newydd i arloesi eich busnes.

Rhaid i bob grŵp gyflwyno ffurflen gais i ofyn am gyllid, a disgwylir iddynt gadw cofnod o'r daith i gynhyrchu adroddiad ar ôl iddynt ddychwelyd.

Am gymorth i gynllunio'ch taith a chymorth gyda'r broses ymgeisio, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol.

Peidiwch â cholli allan! Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno cais yw **dydd Mawrth 31 Mai 2022**.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys y Telerau ac Amodau, ac i lawrlwytho'r ffurflen gais, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR isod, neu ewch i llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813



Silwair yn cael ei baratoi



Rheoliadau

Rheoli Llygredd Amaethyddol Storio silwair

Cyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i leihau faint o lygrwyr a gollir o amaethyddiaeth i'r amgylchedd trwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion amaethyddol.

Ar 1 Ebrill 2021, fe wnaeth y Rheoliadau ddisodli'r safonau 'SSAFO' oedd yn bodoli ar gyfer gwneud silwair, storio elifiant silwair a systemau storio silwair, sy'n berthnasol i bob fferm.

Mae gofynion y rheoliadau o ran silwair hefyd yn rhan o draws-gydymffurfio. Yn ymarferol, nid yw'r gofynion wedi newid; ond, rhaid i chi sicrhau bod pob strwythur yn cydymffurfio â'r safonau adeiladu perthnasol.

Parthau diogelwch silwair

- Rhaid i silwair sy'n cael ei storio mewn silo beidio cael ei wneud na'i storio o fewn 10 metr i unrhyw gorff o ddŵr.
- Rhaid i silwair mewn byrnau fod wedi ei selio mewn pilen neu fag anhydraid ac ni ddylai gael ei wneud, ei storio, ei agor na'i ddad-lapio o fewn 10 metr i unrhyw gorff o ddŵr.
- Rhaid i silwair sy'n cael ei storio ar gae beidio cael ei wneud na'i storio o fewn 50 metr i 'gwrs dŵr cyflenwi a ddiogelir'. Rhaid i chi hefyd hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn i'r safle ar gae gael ei ddefnyddio.

Rheoli elifiant silwair

- Rhaid bod yn ofalus wrth gasglu a storio elifiant silwair heb achosi llygredd.
- Gall elifiant silwair gael ei ddefnyddio i'w borthi i dda byw neu, ar ôl ychwanegu dŵr ato, gellir ei chwalu ar dir amaethyddol fel gwrtaith. Bydd yr elifiant silwair hefyd yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau ar storio a chwalu tail organig sydd â llawer o nitrogen ar gael ynddo.

Gofynion adeiladu storfeydd silwair

- Nid oes angen i chi storio silwair mewn byrnau (wedi ei lapio neu mewn bag) ar lawr wedi ei adeiladu'n arbennig, ond rhaid i chi sicrhau, os bydd yn cael ei gadw'n uniongyrchol ar y llawr, nad yw'n colli elifiant i ddŵr.
- Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw system storio silwair yn bodloni gofynion adeiladu'r rheoliadau (gweler cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth).

- Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno rhybudd yn gofyn am weithredu i wella'r darpariaethau sy'n bodoli pan fydd yn ystyried bod risg sylweddol o lygredd.

Adeiladu neu addasu storfa silwair

- Os bydd arnoch angen adeiladu storfa neu silo newydd, neu ehangu neu ailadeiladu storfa sy'n bodoli yn sylweddol, rhaid rhoi lleiafswm o 14 diwrnod o rybudd i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig cyn dechrau'r gwaith adeiladu. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru ffurflen ar-lein ar gael.

Gellir gweld cyfarwyddyd manwl ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/rheoli-tir. Mae cymorth technegol ar gael gan y Llinell Gymorth Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar **01974 847000**.

Problemau cyffredin gyda chlampiau silwair

- Diffyg sianeli allanol
- Diffyg casglu elifiant digonol
- Difrod i lorïau clampiau silwair
- Diffyg cynnal a chadw
- Nid yw clampiau ochrau pridd yn cydymffurfio os ydynt wedi eu hadeiladu ar ôl 1991



Enghraifft o gladdfa silwair wedi'i chynnal a'i chadw'n wael heb ddraeniad priodol, gan ganiatáu i elifiant ollwng, a allai achosi llygredd i'r amgylchedd

MENTORIAID CYSWLLT FFERMIO

15 awr o wasanaethau
mentora wedi'u
hariannu'n llawn



**Mae gan Cyswllt Ffermio rwydwaith cydnabyddedig o 65
mentor wedi'u lleoli ledled Cymru.**

Gall mentor Cyswllt Ffermio...

- ✓ Ddarparu safbwynt annibynnol, diduedd a chyfrinachol
- ✓ Drafod eich problemau, pryderon a'ch nodau ar gyfer y dyfodol
- ✓ Ddarparu clust i wrando ar eich syniadau
- ✓ Rannu eu profiadau gyda chi, boed yn llwyddiannau neu'n fethiannau
- ✓ Eich herio i gyfiawnhau eich syniadau
- ✓ Eich cynorthwyo i adnabod problemau a chanfod datrysiadau

Er mwyn darganfod mwy am gefndir, sgiliau ac arbenigedd pob mentor,
gallwch edrych dros y 'cyfeiriadur mentoriaid' manwl a geir yma:
llyw.cymru/cyswlltffermiomentora

5 AWGRYM

DA AR GYFER LLEIHAU'R RISG O DROI ATV DROSODD

PARTNERIAETH
DIOGELWCH AR
FFERMYDD CYMRU

WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP



**POB
DEFNYDDIWR
i fod yn gymwys
ac wedi'i
hyfforddi**



**Gwisgwch
helmed BOB
AMSER**



**PEIDIWCH
byth â chario
teithwyr**



**Sicrhewch eich
bod yn CYNNAL
A CHADW
A GWIRIO
DIOGELWCH
Y CERBYD yn
rheolaidd**



**Cadwch at y
LLWYBRAU A
GYNLLUNIWYD**

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermio neu www.hse.gov.uk/agriculture.
Fel arall, edrychwch ar @farmsafetywales ar   i ddysgu pa adnoddau sydd ar gael am ddim i
wneud eich fferm yn fwy diogel.

Cyllid sgiliau Cyswllt Ffermio. Ymgeisiwch nawr i... ...ddatblygu'ch sgiliau, datblygu'ch busnes ...cynllunio ymlaen llaw nawr

Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid sgiliau ar agor rhwng:

2/5/22-27/5/22

Mae cymhorthdal o hyd at **80%** ar gael ar gyfer cysiau hyfforddiant i unigolion sydd wedi cofrestru

Mwy na **70 o gyrsiau** ar gael

Rhwydwaith o **ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy** wedi'u lleoli ledled Cymru



"Mae darpariaeth hyfforddiant â chymhorthdal Cyswllt Ffermio wedi'i anelu at y rhai sy'n gweithio ar lawr gwlad y diwydiant ffermio. Mae wedi ychwanegu llawer iawn at fy sgiliau, gan roi sgiliau a gwybodaeth hanfodol i mi rwy'n eu defnyddio bob dydd, felly rwy'n gallu ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau dros y teulu rwy'n gweithio iddo."

Tomas Ernie Richards, bugail, Cleirwy

"Rwyf wedi dilyn hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o sgiliau sy'n ymwneud â ffermio, busnes a TGCh yr wyf yn eu rhoi ar waith bob dydd. Erbyn hyn, gallaf gyflawni llawer o dasgau ymarferol nad oes angen i mi eu rhoi ar gcontract allanol mwyach, ac rwyf wedi cael y sgiliau a'r hyder i sefydlu menter fferm, twristiaeth a llety lwyddiannus."

Tracey Price, ffermwraig a gweithredydd twristiaeth, Llanidloes



*Os ydych chi'n bwriadu ymgeisio ar gyfer cyllid tuag at hyfforddiant yn ystod cyfnod ymgeisio mis Mai, ac os nad ydych eisoes wedi cofrestru'n bersonol fel unigolyn, ffoniwch y Ganolfan Wasanaeth ar **08456 000 813** cyn **5yp dydd Llun, 23 Mai 2022**.

I weld rhestr lawn o gyrsiau a/neu gymorth ynghylch sut i ymgeisio, cysylltwch â'ch swyddog dabtlygu lleol, ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio, neu defnyddiwch y cod QR i fynd i'n gwefan.

